

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD 4 Mawrth 2024
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Glyn Griffiths, Bethan Gritten, June Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

Siân Cwper, Elin Jones, Cenwyn ap Tomos

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 8 Ionawr 2024

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8 Ionawr 2024, yn ddarostyngedig i newid paragraff cyflog, a nodi o ran yr arosfan fysiau fod y Cynghorydd Nia Povey wedi edrych i weld pwy sydd berchen y tir ar y gofrestrfa dir, ac nad yw'r tir wedi ei gofrestru.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

5. Llinos Griffin – Ymgynghorydd Cymunedol Cyfeillion Croesor

Mynychodd Llinos Griffin y cyfarfod. Mae hi newydd gael ei phenodi gan Gyfeillion Croesor fel Ymgynghorydd Cymunedol, er mwyn gweld sut fyddai'r ffordd orau i hybu gweithgareddau yng Nghroesor a'r gymuned gyfagos.

Ar hyn o bryd, dydy adeilad y caffi yng Nghroesor ddim ar agor bob diwrnod, a does dim tenant yn y caffi bellach.

Dros y ddau fis nesaf, bwriada holi barn trigolion Llanfrothen, Croesor a Phenrhyndeudraeth i weld oes yna anghenion y gellir eu cyfarch, ac unrhyw syniadau newydd y gellir eu datblygu.

Mae holiadur wedi ei greu er mwyn casglu barn, a chroeso i unrhyw un ei lenwi. Bydd copi o'r holiadur hefyd ar gael yng Nghaffi a Siop Llanfrothen i'r cyhoedd ei lenwi.

Syniadau sydd wedi cael eu crybwyll hyd yn hyn yw darparu llety yng Nghroesor ar gyfer cerddwyr a gardd gymunedol. Hefyd cynnal digwyddiadau fyddai'n dod â'r gymuned at ei gilydd.

Mae'n bosibl y bydd Ysgol Y Garreg yn rhan o'r gweithgareddau fel rhan o'r cwricwlwm addysg newydd. Mae ganddynt ddiddordeb i wneud arddangosfa, a hynny'n plethu i brosiect ehangach all datblygu yn ofod y gall yr ysgol ei ddefnyddio i wneud gwaith ar natur a hanes lleol

Mae Cyfeillion Croesor wrthi'n gwneud cais am grant Grymuso Gwynedd. Os bydd hwnnw'n llwyddiannus yna bydd bwriad gwario peth o hynny ar gynnal a chadw'r adeilad yng Nghroesor.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymdra 20 m.y.a.

Cyfarfu'r Cynghorwyr Nia Povey, Siân Cwper a June Jones efo trigolyn yn Garreg oedd yn poeni am oryrru drwy'r pentref. Mae'r trigolyn wedi cyfarfod efo Mabon ap Gwynfor AS, ac yn gryf o'r farn fod pobl yn goryrru drwy Garreg.

Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gael llwybr cerdded ar wahân o'r Lodge ger troad Croesor i mewn i Garreg.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones i fynd ar ôl Cyngor Gwynedd i ofyn am amserlen gosod llinellau gwynion ar hyd ochr y ffordd, drwy ganol pentref Garreg. Mae hyn wedi cael ei addo ers amser maith, a Chyngor Gwynedd heb weithredu.

Cytunwyd fod mynd i lawr o 60 i 20 wrth ddod i mewn i Garreg yn ormod o ostyngiad, ac y byddai gostyngiad mwy graddol o 60 i 40 i 20 yn gwneud mwy o synnwyr. Y Cynghorydd June Jones i holi Cyngor Gwynedd er mwyn gweld a fyddai hyn yn bosibl, a hefyd i ofyn a fyddai'n bosibl cael mwy o bresenoldeb plismyn er mwyn atal goryrru.

6.2 Mynwent Tan Lan

Mae aelod o'r cyhoedd wedi gofyn a yw hi'n bosibl archebu bedd ymlaen llaw. Nid yw hi'n bolisi gan y cyngor cymuned i adael i drigolion archebu beddau ymlaen llaw – hyn wedi achosi problem o'r blaen.

Bu addewid gan Dîm Tacluso Cyngor Gwynedd i lanhau'r ffordd am y fynwent, ond nid ydynt wedi gwneud hyn eto, felly gofynnwyd i'r Clerc eu hatgoffa.

Cytunwyd i adolygu'r ffioedd claddu yng nghyfarfod mis Mai.

Cytunwyd fod angen sicrhau pan fod y fynwent yn cael ei thorri fod angen torri tua 4 m o flaen y cerrig mwyaf diweddar, fel bod teuluoedd yn medru carded a sefyll o flaen unrhyw fedd newydd.

6.3 Prosiect Coed Yw

Mae cynrychiolydd o Barc Cenedlaethol Eryri yn fodlon ymweld â mynwent Tan Lan ddiwedd Mawrth dechrau Ebrill i drafod plannu coed Yw ym mynwent Tan Lan. Cytunwyd i gyfarfod er mwyn trafod ymhellach.

6.4 13 Garreg Frech

Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud yn glir nad ydynt am ddefnyddio'r ddeddfwriaeth eiddo gwag er mwyn dod ag 13 Garreg Frech yn ôl i ddefnydd.

Mae hyn er gwaethaf iddynt grybwyll y llynedd eu bod am sefydlu Grŵp Gweithredol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yng Ngwynedd. Yn ogystal bu iddynt nodi fod swyddog Tai Gwag ychwanegol i'w benodi, fyddai'n canolbwyntio ar faterion gorfodaeth, a hyn yn rhan allweddol o brotocol trawsadrannol, gyda'r bwriad o ddod ag eiddo gwag problemus yn ôl i ddefnydd.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan fynegi rhwystredigaeth am y sefyllfa, ac os nad oedd addewid am weithrediad gan Gyngor Gwynedd ar y mater, bod y cyngor cymuned yn ystyried cysylltu â'r wasg oherwydd diffyg gweithrediad gan Gyngor Gwynedd.

6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen

Cyfarfu'r Cynghorwyr Nia Povey a Siân Cwper efo Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd, er mwyn trafod elfennau bioamrywiaeth y gysgodfan, gan gynnwys yn benodol, gosod to gwyrdd arno. Y camau nesaf ydy darganfod pwy sydd berchen y tir, ac yna gwneud cais cynllunio.

Doedd Hywyn Williams ddim yn rhagweld problem o ran cael grant am yr elfennau gwyrdd.

Os bydd to gwyrdd, yna mi fydd yna waith cynnal a chadw, ac angen ei dorri ddwywaith y flwyddyn os oes blodau, ddim cymaint os yw o dyfiant gwyrdd.

Trafodwyd yr agwedd to gwyrdd, ac fe gytunwyd nad oedd y to gwyrdd yn syniad da, oherwydd costau, yr anghenion cynnal a chadw, a'r ffaith y byddai mewn lleoliad cefn gwlad, sydd yn llawn gwyrddni beth bynnag.

Byddai gosod planwyr yn hongian o'r waliau yn medru bod yn rhywbeth y gallasid eu gosod ar ryw bwynt yn y dyfodol, fyddai'n harddu edrychiad y gysgodfan ac yn llawer rhatach a symlach o ran unrhyw agwedd cynnal a chadw.

O ran y cynllun ar gyfer y gysgodfan, cytunwyd fod angen iddo fod ychydig bach yn hirach ac ychydig bach yn fwy cul na'r cynllun gwreiddiol.

Cytunwyd i fwrw ymlaen efo cynllun 3 wedi ei ddiwygio, fel ei fod yn fwy cul ac wedi ei wneud o sinc yn hytrach na'r Yorkshire Boards fel yn y cynllun gwreiddiol.

Bydd y Cynghorydd Bethan Gritten yn holi'r pensaer am gynllun diwygiedig.

Cynnig:G lyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

6.6 Llwybr Llanfrothen – Penrhyndeudraeth

Cysylltodd y Clerc efo Clerc Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, ac maen nhw'n hapus i drafod ymhellach fel egwyddor. Awgrymwyd fod y drafodaeth yn cychwyn ar gynllun mwy syml i ddechrau.

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi siarad efo Liz Haynes, cyn swyddog hawliau tramwy efo Cyngor Gwynedd, ond ddim eto efo cymdeithas y Ramblers

Awgrym Liz Haynes oedd mai'r cam cyntaf fyddai cynnal asesiad dichonoldeb. Dylid holi os ydy Cyngor Gwynedd wedi edrych ar yr agwedd bioamrywiaeth yn iawn.

Mae yna berson sydd yn byw ar y ffordd i mewn i Benrhyndeudraeth fyddai'n medru edrych ar gynnal astudiaeth dichonoldeb.

6.7 Gordyfiant ger Llwyn Onn

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb a dweud y byddant yn gwneud y gwaith unwaith y bydd adnoddau ar gael, yn ystod yr wythnosau nesaf.

6.8 Diffribiliwyr ardal Llanfrothen

Llwyddodd noson yn Y Ring godi £805 ar gyfer diffribilwyr . Diolchwyd i'r Cynghorydd Ein Jones am ei hymdrech yn trefnu hyn, ac am godi cymaint o arian mewn amser byr.

Mae'r ddiffribliwr a'r ces gyfer Croesor wedi ei archebu, ac yn swyddfa Cyngor Gwynedd yn Nolgellau, yn aros i Gyngor Gwynedd eu hnôl a'u gosod ar bolyn yng Nghroesor.

Cytunodd y Cynghorydd Bethan Gritten edrych ar y posibilrwydd o osod blwch gonestrwydd yn y maes parcio yng Nghroesor, er mwyn codi arian pellach ar gyfer y diffribiliwyr.

Cytunwyd i fwrw ymlaen i osod diffribliwyr newydd yn Y Garreg ac yn Rhyd.

6.9 Cofeb Rhyfel Brondanw

Mae Stad Brondanw wedi cydnabod mai nhw sydd yn gyfrifol am y gofeb. Bu iddynt ymweld â'r gofeb ac maent yn cydnabod bod y piler ochr dde yn simsan. Byddant yn asesu beth sydd angen ei wneud i sicrhau ei bod yn ddiogel.

6.10 Arwyddion ffordd ger Lodge Brondanw.

Disgwylir diweddariad gan Gyngor Gwynedd ar y mater, gan fod y ffordd yn berchen i stad Brondanw, ond yr arwyddion presennol yno wedi eu gosod gan Gyngor Gwynedd.

7. Materion Ariannol

7.1 Cyflog Clerc Ionawr 2024 £239.72

TWE £59.80

7.2 Cyflog Clerc Chwefror 2024 £239.72

TWE £59.80

7.3 yuenergy £18.88, 9 Chwefror 2024

7.4 yuenergy £18.67, 11 Ionawr 2024

7.5 Defibstore Anfoneb 9 Chwefror 2024 - cyflenwi ces, defib ZOLL AED, cit gosod ar bolyn £1603.44

7.6 Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad 2021/22 - £1,100.00

Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad 2020/21 - £800.00

7.7 Anfoneb Dunn & Ellis 22 Ionawr 2024 - £61.20

7.8 Derbyn £805.40 i'r cyfrif cadw – noson casglu arian diffribliwr Y Ring

7.9 Balans yn y prif gyfrif 27 Chwefror 2024 £15,184.71

7.10 Balans yn y cyfrif cadw 27 Chwefror 2024 £22,355.17

8. Gohebiaeth

Dim

9. Cynllunio

Dim

10. Materion Eraill

10.1 Cofrestr Asedau

Ychwanegwyd y fainc dros y ffordd i Deras Garreg. Cafodd ei gosod yna ers 1995, efo gwerth o werth £100

Cymeradwywyd y gofrestr asedau yn ddarostyngedig i'r newid yma.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

10.2 Cofrestr Risg

Cymeradwywyd y gofrestr risg

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Bethan Gritten

10.3 Cynllun Hyfforddiant

Trafodwyd y cynllun hyfforddiant, a nodwyd mai dim ond y Clerc oedd wedi mynychu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn a fu. Nodwyd nad oedd y cyrsiau y bwriadodd rhai aelodau eu mynychu yn ystod 2023/24 wedi eu mynychu, ond fod diffyg cyrsiau iaith Gymraeg hefyd yn rhwystr.

10.4 Rhoddion Ariannol

Cytunwyd i roi'r rhoddion ariannol canlynol.

Yr Wylan - £50

Ysgol Y Garreg - £50

Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £50

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Bethan Gritten

10.5 Cronfeydd a Grantiau Parc Cenedlaethol Eryri

Cyfarfu'r Clerc efo swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri er mwyn gweld beth oedd y grantiau a chynlluniau sydd ar gael .

Mae grant Cronfa Cymunedau Eryri ar gael, sydd yn gronfa i gynorthwyo cymunedau i gynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr ac adeiladu cymunedau cydnerth gyda'r ffocws ar seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol, datblygu

cymunedol, ffyniant yr iaith Gymraeg a datgarboneiddio. Mae'r grant werth rhwng £5,000 ac £20,000.

Y dyddiad cau yw 13 Mai, ond mae'n bosibl y bydd cyfleoedd eraill ar gael yn hwyrach yn ystod y flwyddyn.

10.6 Llogi'r Ganolfan - Etholiad y Comisiynydd Heddlu ar 5 Mai 2024

Cytunwyd i adael i Gyngor Gwynedd logi'r Ganolfan ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu ar 5 Mai ar gost o £200. Bydd angen tacluso'r ystafell erbyn dechrau Mai.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 13 Mai 2024 am 7 yr hwyr